**Teitl: Freakier Friday**
**Genre: Comedi**
**Cyfarwyddwr: Nisha Ganatra**

Yn mynd i fewn i'r ffilm heb lawer o gyd-destun y ffilm gyntaf, lle mae Jamie Lee Curtis a Lindsay Lohan yn cyfnewid cyrff wrth chwarae Mam a Merch, nid oeddwn yn siwr pa dôn i ddisgwyl. Yn ogystal a hyn ni roeddwn yn gyfarwydd o Nisha ganatra fel cyfarwyddwr nac y ddwy actores ifanc sydd wedi ymuno a'r cast. Doeddwn i ddim yn disgwyl i'r ffilm gymryd mantais o'r 'trope' cyfnewid cyrff fel dyfais i ddatblygu y themau fod datrys problemau teuluol yn dod o nid yn unig gweld o berspectif eraill (fel mae'r gwreiddiol o 2003 yn nodi) ond fod rhaid ildio rhai pethau er mwyn llesiant gweddill y teulu. Yn y ffilm rydym nawr yn dilyn Jamie Lee Curtis fel Nain ac Lindsay Lohan fel Mam wrth gyflwyno dwy actores newydd, Julia Butters fel Merch y Fam ac Sophia Hammons fel merch cariad y Fam o Loegr. Mae priodas y Fam yn bygwth gwahanu y Ferch o ei chariad at y môr ac gorfodi i Ferch ei chariad symud ymlaen o farwolaeth ei Mam gartref.

Er ei fod yn ymddangos i apelio i blant a'r gradd oed yn '*PG'* ac wedi ei gynnhyrchu gan *Disney*, mae'n wir apelio i'r grwp oed 25-40 hefyd, neu unrhyw fam a merch gan fod y hiwmor yn dod o'r gwahanol berspectif gan bob genhedlaeth yn y teulu  ac y newidiadau wrth heneiddio a gweld pethau yn newid i sut rydym ni yn ei cofio yn ifanc. Mae'r ffilm yn gallu bod yn cyflwyno sefyllfa hollol wirion un eiliad cyn troi yn ffilm llawn calon am newid a sut mae rhaid caniatau iddo ddigwydd, lle does dim posib ei gildroi. Rhwng y jôcs ac y plot gwirion mae'n glir fod y ffilm hefyd yn bodoli i gymryd mantais o'r dôn o nostalgia tuag at y 2000's sydd wedi cyraedd yn ddiweddar, a llawer o enwau pwysig y 2000's yn ôl, o *'juicy couture'* i '*MGMT'* ac nawr *'Freaky Friday'*. Mae'n glir fod y trend hyn yma i aros wrth edrych ar safon y ffilm tu allan i alw yn ôl i'r ffilm wreiddiol ac hefyd bodoli fel ffilm wreiddiol ei hun gaiff ei gofio gan genedlaethau newydd.

Mae'n dda gweld ffilm 'live action' wedi ei dargedu at blant a phobl ifanc yn cael y gefnogaeth arianol i gael ei chwarae mewn sinemau. Ers y 2010's mae'r gynulleidfa yna wedi lleihau wrth i'r cyfryngau cymdeithasol wthio y syniad fod ymddangos yn hyn yn hytrach na creosawy a mwynhau eich 'teen years' yn cŵl. Yn anffodus mae hyn wedi arwain at blant a phobl ifanc yn gwylio rhagleni a phynciau anaddas gan ei fod yn cael ei gwthio arnynt, felly mae gweld ffilm a neges pherthnasol i'w grŵp oed yn gret. Ffilm am newid perspectif sydd (gobeithio) am newid persbectif bobl ar y farchnad ffilmiau i ferchaid ifanc.